Rhif 201 MEHEFIN - GORFFENNAF 2016

AM DDIM

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



# O ble gest ti'r ddawn?

gan William H. Owen



Ei hoffi neu ei chasáu, fedrwch chi ddim osgoi clywed am Gymru a'r bêl-droed eleni. Rhag ofn i chi rywsut golli'r holl orfoledd, mae Cymru yn cystadlu am y tlws Ewropeaidd am y tro cyntaf ers 58 mlynedd. Mi glywson ni un o'r cynigion am y Gân i Gymru adeg Gŵyl Dewi yn ein hatgoffa tuag ugain gwaith fod 'Bale ar y bêl'. Gyda'r gobaith y bydd yn iach ym mis Mehefin, mae gan Gymru gyfle i fynd ymlaen yn y cwpan os bydd Gareth Bale yn chwarae, meddai'r gwybodusion. Hwnnw yw'r pêl-droediwr drutaf yn y byd, ar wahân i Ronaldo, sy'n gwneud siâp calon gyda'i fysedd pan fydd wedi sgorio gôl. Dyna un ffordd o ddathlu cael y bêl i'r rhwyd. Mae gan chwaraewyr eraill ddulliau gwahanol o ddathlu.
Cymerwch chi Emmanuel Adebayor a fagwyd yn Gristion yn Togo yng ngorllewin Affrica ond sydd bellach wedi troi at Islam. Troi ei olygon ar i fyny y bydd ef a'i ddwylo ymhleth fel pe bai'n diolch am y cymorth a gafodd i sgorio, nid ei fod wedi cael llawer o hwyl arni ers ymuno â Crystal Palace. Hyd yn oed cyn i'r gêm ddechrau bydd Mesut Özil yn sefyll ar y cae am eiliadau lawer yn myfyrio a gweddill tîm Arsenal yn rhedeg a neidio o'i gwmpas. Almaenwr â chefndir Twrcaidd yw Mesut a Mwslim o ran ei grefydd. Adrodd o'r Corân y bydd y pasiwr celfydd a'i gyd-chwaraewyr yn gwybod na ddylent dynnu dim o'i sylw yn y cyfnod byr yma cyn gêm.
Nid yw'n medru dilyn ei grefydd ym mhob dim, meddai. Adeg Ramadan mae'n rhaid iddo fwyta ac yfed oherwydd gofynion ei waith ond bydd yn ymprydio am ddiwrnod neu ddau pan fydd cyfle.
Dyna chi David Luiz wedyn, a fu yn Chelsea cyn symud i Ffrainc at Paris Saint-Germain. Cristion yw'r gŵr o Brasil, yn credu fod ei ffydd yn ei gynnal i fod yn well chwaraewr ar y cae. Kaká, sy'n chwarae i'r un wlad, yw ei ysbrydoliaeth. Mae Kaká yn Gristion efengylaidd ac wedi dangos slogan dan ei grys mewn gornest Cwpan Byd yn cyhoeddi ei fod yn perthyn i Grist. Datgan fod Duw yn ffyddlon a wnâi tafod ei esgidiau.
Mae enghreifftiau eraill. Americanwr a Christion yw'r golwr Brad Guzan a bydd yn rhaid iddo bwyso'n drwm ar ei ffydd y tymor hwn wrth i Aston Villa wneud mor wael. A phan fydd Daniel Sturridge o Lerpwl yn chwarae i Loegr yn erbyn Cymru yr haf hwn, os caiff ei ddewis, o leiaf bydd un Cristion o argyhoeddiad ar y cae. Crist sy'n gefn iddo ac yn ei gryfhau, meddai unwaith. Ac mae Wayne Rooney yn cydnabod fod bod uwch ei ben sy'n ei gynorthwyo i sgorio goliau. Hyd y gwn i nid oes yr un o chwaraewyr Cymru yn arddel eu crefydd yn agored. Mae Osian Roberts, rheolwr cynorthwyol Cymru, wedi ei fagu yn y capel ym Modffordd a bydd o leiaf yn deall ymrwymiad y chwaraewyr o wledydd eraill fydd yn edrych i'r ffurfafen a'u dwylo ymhleth wedi sgorio gôl, os digwydd iddynt gael cyfle i wneud hynny.








Braint oedd cael croesawu Llywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd atom – mwy o'r hanes ar dudalen 4

**Gwyliedydd**

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 201**

**MEHEFIN–GORFFENNAF 2016**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***

**ROBIN JONES**
LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU:**
**1 GORFFENNAF, 2016**

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i **"Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru"**

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018

## Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

**MEHEFIN**
5 Môn ac Arfon
12 Powys
19 Bathafarn
26 Ceredigion

**GORFFENNAF**
3 Y Gynhadledd Fethodistaidd
10 Ceredigion
17 De Gwynedd
24 Glannau Maelor
31 Yr Eisteddfod Genedlaethol

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl

# O'R GADAIR
# AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Dwi'n cael fy nhynnu tuag at ddistawrwydd. Nid dim ond tawelwch a llonyddwch, ond distawrwydd bwriadol – pur, clir, heb sŵn na symudiad. Eto, tan yn ddiweddar, roedd arna i ofn bod yn ddistaw ar fy mhen fy hunan. Mewn grŵp o bobl, roeddwn i'n iawn. Teimlwn yn ddiogel, a mwynhau'r profiad. Ond fel unigolyn? Rhywbeth hollol wahanol. Er imi gael fy nhynnu ato, cawn fy ngwrthyrru hefyd. Petawn i'n ddistaw, beth fyddwn i'n ei glywed? Pa leisiau oedd yn disgwyl i siarad wrtha i? A oeddwn i'n barod i wrando ar y distawrwydd? Doeddwn i ddim yn sicr, ac eto, roedd distawrwydd yn galw arna i.

Felly, eleni, yn ystod tymor y Grawys, mi benderfynais ymateb i'r alwad. Prynais lyfr o'r enw *Sensing God: Learning to Meditate During Lent* gan Laurence Freeman OSB, cyfarwyddwr y World Council for Christian Meditation. (Sylwch! Roedd arna i angen llyfr fel cydymaith er mwyn mentro i mewn i'r distawrwydd!) Bwriad yr awdur yw i'r darllenydd dreulio ugain munud mewn distawrwydd bob bore a phob nos. Mae'n cynnig nodiadau dyddiol – geiriau doeth – i'ch helpu ar eich taith tuag at ddistawrwydd, sef, yn wir, tuag at Dduw. Doedd y profiad ddim yn hawdd, ac fe fethais gwblhau ugain munud bob bore a phob nos, ond rwyf wedi goresgyn fy ofn o ddistawrwydd. Yn y distawrwydd, byddaf yn canfod ffrind – ffrind sydd â gair a wna imi archwilio fy hunan weithiau, ie, ond yn sicr, ffrind graslon, caredig ac amyneddgar. Yn y distawrwydd, rwy'n canfod Duw, ac rwy'n cael fy nhynnu yn ôl eto ac eto tuag at ddistawrwydd.

Mae'r profiad yma wedi gwneud imi feddwl am y modd y byddwn yn defnyddio distawrwydd pan ddeuwn ynghyd yn fwriadol i gyfarfod â Duw yn ein gwasanaethau o addoliad. Mewn rhai capeli, bydd yr organydd yn canu'r offeryn cyn i'r gwasanaeth ddechrau, ond ambell dro ceir distawrwydd llwyr wrth i bobl gyrraedd – dim cerddoriaeth, dim cyfarch, dim byd. Gall y distawrwydd hwn roi cyfle inni droi ein meddyliau at Dduw a gwerthfawrogi ei bresenoldeb gyda ni. Ond yn ystod y gwasanaeth, mae'n wahanol iawn! Peth prin yn aml yw ennyd o dawelwch. Pan fyddaf, fel pregethwr, yn awgrymu ein bod fel cynulleidfa yn treulio amser mewn distawrwydd, buan iawn y synhwyraf fod pobl yn anesmwytho. At ei gilydd, nid yw distawrwydd yn rhywbeth y teimlwn yn gyfforddus ag ef (gweler uchod!), ac eto, mae iddo le yn ein haddoliad. Nid Crynwyr mohonom, wrth gwrs, ond Methodistiaid. Pobl sy'n hoff o ganu! Ond mae gennym rywbeth i'w ddysgu gan bob traddodiad yn Eglwys Crist ar gyfer ein haddoliad, ac mae'n werth ystyried y defnydd o ddistawrwydd yn ein gwasanaethau er mwyn rhoi cyfle arall, gwahanol, inni wrando ar lais Duw.

Gyda'r rhifyn hwn o'r *Gwyliedydd*, mae'r haf yn dod. Tymor y gwyliau! Bydd rhai ohonom yn ddigon ffodus i gael cyfle i fynd i ffwrdd, efallai dramor neu i rywle arall ym Mhrydain. Bydd rhai o Synod Cymru yn mynd i Lundain i'n cynrychioli ni yn y Gynhadledd Fethodistaidd. Mae teithio yn ehangu'r meddwl, medden nhw, ac mae'n gallu bod yn gyfle i ehangu ein profiad o'r teulu Cristnogol hefyd, drwy fynd i wasanaeth rhyw draddodiad arall a rhannu mewn addoliad gyda brodyr a chwiorydd yng Nghrist lle bynnag y byddwn. Pan ddechreuais i ddysgu Cymraeg, mi es i ar gwrs wythnos efo'r tiwtor enwog, Ioan Talfryn. Roedd ganddo fo ddywediad yn y dosbarth (yn Saesneg i ni fel dysgwyr), "Sit next to someone new this session. It's the next best thing to going on holiday!" Tra byddwn ar wyliau, beth am fynd i eistedd yn ymyl rhywun newydd mewn oedfa – o dras wahanol, iaith wahanol (Eglwys Fethodistaidd Saesneg ei hiaith, unrhyw un?) neu enwad gwahanol? Profiad sydd cystal â bod ar wyliau, a chithau **ar** eich gwyliau – swnio fel bendith ddwbl i mi! Efallai y deuwch â rhywbeth adref i'w rannu, a fydd yn cyfoethogi ein haddoliad yma hefyd.

Wrth i mi feddwl am yr haf, trof fy meddwl at y gweinidogion a fydd yn symud i benodiadau newydd ym mis Awst. Pob bendith, a diolch, i'r Parchedig James Patron Bell, sy'n mynd i wasanaethu yng Nghylchdaith Northwich and Winsford, ac i'r Diacon Stephen Roe, sy'n aros yng Nghylchdaith Cymru ond yn symud i wasanaethu yn Ardaloedd De Gwynedd a Glannau Meirion a Dyfi. Lle bynnag y byddwn ni, rydym yn perthyn i Dduw, ac yn perthyn i'n gilydd. Diolch fo i Dduw.

# CNOI CIL

gan Gwyndaf Roberts

Fe fu cyfnod yn y gorffennol pell pan allai gwyddonydd o allu anghyffredin wybod y cyfan a fodolai am ei faes. Gyda'r ffrwydrad a ddigwyddodd yn ystod cyfnod y Dadeni Dysg ac a gyflymodd y tu hwnt i unrhyw beth a welwyd o'r blaen gyda'r chwyldro diwydiannol, fe ddiflannodd y polymath o'r tir. Bellach, pobl yn gwybod mwy a mwy am lai a llai o bynciau yw ein gwyddonwyr cyfoes gyda rhai yn rhoi oes o ymchwil i feysydd cyfyngedig iawn. Yr hyn sydd yn rhyfeddol yw bod llawer o wyddonwyr cyfoes yn gwbl barod i gyfaddef bod yna lawer o ddirgelion sydd o hyd y tu hwnt i'w gafael. Daeth hyn yn gwbl amlwg pa ddiwrnod wrth wrando ar rai o serydd-wyr mwyaf blaenllaw ein cyfnod yn ceisio ateb cwestiynau ffeithiol ynglŷn â'u pwnc. Yr atebion a glywyd fynychaf oedd, "Dydym ni ddim yn gwybod", neu "Dydym ni ddim yn sicr ar hyn o bryd".

Mae rhai canghennau o wyddoniaeth yn mynd â ni i fannau tywyll iawn lle mae cwestiynau moesol ynglŷn â hawl yr ymchwilydd er enghraifft i ymyrryd â chelloedd dynol i bwrpas meddygol yn codi. Y ffaith yw bod gwyddoniaeth yn dda iawn am gasglu gwybodaeth o bob math ond yn gallu bod yn ddiffygiol wrth ymateb i'r problemau moesol a gyfyd yn feunyddiol yn y labordy. Yr hyn sydd ei angen yw rhywrai i osod unwaith eto safonau moesegol wedi'u seilio ar athroniaeth Duw-ganolog a Christ-ganolog. Dau a fu'n gosod safonau'n gyson fu'r Rabi Jonathan Sacks a'r Parchedig Ddr Rowan Williams.

Bu'r gymuned Iddewig ym Mhrydain yn hynod o ffodus o gael, fel Prif Rabi, Jonathan Sacks am 22 mlynedd tan 2013. Y pryd hynny yn 67 mlwydd oed ymddeolodd yr Arglwydd Sacks ond ni fu'n segur am foment. Mae'n awdur nifer o gyfrolau. Daeth yr un diweddaraf o'r wasg yn 2015 sef, *Not in God's Name*: *Confronting Religious Violence.* Wrth astudio athroniaeth yng Nghaergrawnt, yr hyn a'i blinai oedd y cwestiwn mawr 'Beth sy'n cyfiawnhau ein ffydd yn Nuw?'. Erbyn hyn mae'r cwestiwn wedi newid i 'Sut bod gan Dduw ffydd ynom ni?' Dyfarnwyd Gwobr Templeton gwerth £1.1 miliwn i Sacks yn 2016. Ei fwriad yw defnyddio'r arian i hybu deialog rhyng-grefyddol ar raddfa fyd-eang er mwyn gwrthsefyll neges eithafwyr crefyddol. Bydd yn werth disgwyl am ei gyfrol nesaf gan mai esboniad ar y Tora, prif lyfr y grefydd Iddewig, fydd dan sylw ganddo.

Gŵr sydd wedi gadael ei ôl ar grefydd yn gyffredinol yw'r Cymro a'r cyn-Archesgob Rowan Williams. Nid oes gofod i fanylu ar ei gyhoeddiadau treidd-gar a dyrchafol ond digon yw dweud bod yna hyd a lled eithriadol i'r cyfan a ysgrifennodd. Bu peth beirniadu arno am fod ei gyfrolau yn ymddangos yn anodd eu deall. Ni ellir gwadu bod yn rhaid i'r sawl sydd am ddeall Rowan Williams dreulio amser yn chwilio am ystyr ei neges ond mae'r ymdrech yn talu ar ei chanfed. Dyfnder sy'n galw ar ddyfnder yw ei waith ac yn wers i'r sawl sy'n credu mai rhywbeth arwynebol a ddylai crefydd fod. Onid yw meddyliau o'r fath wedi ein harwain i'r sefyllfa lle mae ein crefydd yn ymddangos yn arwynebol a diwerth i drwch y boblogaeth.

Un o uchelgeisiau pobl yw edrych yn ifanc. Yn wir ers amser maith fe fu hylifau ar gael i wneud i'r croen edrych yn ifanc ond heb ei gadw'n ifanc. Erbyn hyn mae ymchwil yn un o'n prifysgolion sy'n dangos bod yr mitochondria sy'n pweru celloedd ynni'r croen yn methu oherwydd bod yr ensymau ar lefel isaf y croen yn arafu a darfod. Mae gobaith bellach y gellir defnyddio moleciwlau a fydd yn bywiocáu'r ensymau ac yn cadw'r croen mewn cyflwr ieuengaidd.

Os gellir gwneud hyn gyda'n croen onid oes yma neges i'n hysgogi i ddarganfod unwaith eto'r peth byw hwnnw sy'n troi crefydd yn rhywbeth dyfnach na mynychu capel neu eglwys, canu emyn-au, dadlau am ddogmâu a chynnal boreau coffi. Ysbryd y Duw Byw yn gweithio arnom a thrwom yw'r hyn sydd ei angen. Beth am inni fyfyrio ar y peth hwnnw sydd, dros y canrifoedd, wedi rhoi bywyd newydd i'r eglwys sef yr Ysbryd Glân?

# Croeso i Gymru



Llywydd y Gynhadledd Fethodistaidd eleni yw'r Parchedig Steve Wild a daeth ef, ynghyd â'r Is-lywydd Dr Jill Barber, i ymweld â Chymru am bedwar diwrnod ddiwedd mis Mawrth. Eu cyfrifoldeb yw arwain a gofalu am yr Eglwys Fethodistaidd yng ngwledydd Prydain gan ein hannog i fod yn well disgyblion a thystiolaethu i enw Crist ym mhob man. Fel John Wesley, Llywydd cyntaf y Gynhadledd, maent yn teithio llawer ledled Prydain a thu hwnt, yn ystod eu blwyddyn wrth y llyw.

Ar ôl siarad â'r cynrychiolwyr yn y Cyngor (cyd-gyfarfod Synod Cymru a Wales Synod), cawsant gyfle i fynd i rai o'r mannau sydd yn gysegredig i ni yng Nghymru. Yn y De y bu'r Llywydd yn gyntaf ac yn y cyfamser bu Dr Jill Barber yn Nyffryn Tanat a mwynhau cyfarfod cyfeillion Llanfyllin a Llanrhaeadr ym Mochnant. Treuliodd beth amser hefyd yn nhawelwch Pennant Melangell. Yn ogystal, cafodd ailymweld ag Aberyst-wyth lle bu ei gŵr, Peter, yn weinidog ryw ugain mlynedd yn ôl.

Yn y Bala, ar ddydd Gwener 19 Mawrth, cafodd llawer o aelodau a chyfeillion Synod Cymru gyfle i gyfarfod y Llywydd yng Nghanolfan Byd Mary Jones. Roedd hwn yn ddiwrnod arbennig iawn, nid lleiaf oherwydd (drwy gyd-ddigwyddiad hapus) dyna oedd y diwrnod y dychwelodd Beibl gwreiddiol Mary Jones i'r Bala. Ymgasglodd torf y tu allan i'r adeilad ar Stryd Fawr y Bala lle trigai'r Parchedig Thomas Charles, er mwyn gweld y gweinidog ifanc, y Parchedig Carwyn Siddall, yn cerdded tuag atom â'r Beibl byd-enwog yn ei ddwylo. Roedd y Llywydd yn amlwg wrth ei fodd a hyfrydwch oedd gweld ei ymateb pan gyflwynwyd copi o beibl.net, y cyfieithiad newydd, yn rhodd iddo gan y Synod.



Cyn i'r ddau ymwelydd fynd ymlaen ar eu taith, y naill i Ynys Manaw a'r llall i Englesea Brook, amgueddfa'r Eglwys Fethodistaidd yn Swydd Stafford, buont hefyd yn Abergele yn cynnal cyfarfod ar y thema "Treftadaeth a Chenhadaeth"; yng Nglannau Dyfrdwy ac yn Llandudno lle pregethodd y Parchedig Steve Wild yn Eglwys St John. Boed bendith arnoch a phob dymuniad da i chi, Steve a Jill.



Y Parchedig Marc a Mrs Margaret Morgan sydd yn awr yn gyfrifol am hyrwyddo gwaith yr elusen Gweithredu dros Blant yn Synod Cymru. Mae'r gwaith pwysig hwn yn helpu llawer o blant a theuluoedd llai breintiedig, gan sicrhau gwell chwarae teg i lawer. Mae Marc a Margaret wedi cymryd drosodd gan Robin Jones a fu wrthi'n ddiwyd yn gofalu am y gwaith am gyfnod o wyth mlynedd. **Sylwer mai i Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam LL11 4FF y dylid anfon cyfraniadau yn awr (sieciau yn daladwy i Gweithredu dros Blant).**



### Ychydig o hanes y Parchedig a Mrs Morgan

**Marc:**
Un o'r Tymbl ydwyf. Ordeiniwyd fi yn 1989 gyda'r Annibynwyr yn Sardis, Trimsaran. Ers hynny rwyf wedi bod yn Swyddog Ieuenctid Rhanbarthol i Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Ne Orllewin Cymru, yn weinidog ar chwech o eglwysi yng Ngofalaeth y Groes ger Dinbych - yma y ganwyd ein mab Owain Dafydd yn 1996. Yna yn ôl at yr Annibynwyr - cawsom 12 mlynedd hapus yn y Canolbarth pryd roeddwn yn weinidog ar rai o eglwysi Sir Drefaldwyn gan gynnwys Yr Hen Gapel, Llanbrynmair. Yna trawodd dirwasgiad gefn gwlad Cymru a daeth ein cyfnod yno i ben. Ar yr un pryd roedd Ardal Glannau Maelor yn chwilio am Arweinydd Cenhadol a thrwy gyfeillion o'r Eglwys Fethodistaidd rhoddwyd fy enw ymlaen ac fel maent yn dweud "mae'r gweddill yn hanes". Ers yn ifanc mae gennyf ddiddordeb mawr mewn chwaraeon o bob math. Roeddwn yn ddyfarnwr pêl-droed am 20 mlynedd. Erbyn hyn, cefnogwr ydwyf gan ddilyn tîm Y Drenewydd ac ers 7 mlynedd rwyf yn gaplan arnynt, ymhlith swyddi eraill - sy'n wir am y tri ohonom!

**Margaret:**
Er yn Gymraes i'r carn, un o Gaer ydwyf. Mae gennyf o hyd flwch casglu NCH ers fy nghyfnod o ganu yn y Methodist Central Hall yn Llundain gyda chôr yr ysgol gynradd.

Graddiais o'r Coleg Normal, yna ddwy flynedd cyn priodi, ar Sadwrn y Pasg 1990, symudais gyda fy rhieni i Ynys Môn. Gweithiais i ddau awdurdod iechyd yn eu hadrannau cyllid ond pan oeddem yn y Canolbarth fy swydd oedd bod yn arweinydd Cylch Meithrin Llanbrynmair. Bellach nid wyf â gwaith cyflogedig, felly mae'n rhoi cyfle i mi fod yn "wraig gweinidog" llawn amser. Yn ogystal â phêl-droed, rydym yn hoffi gwneud pethau fel teulu ac rwyf hefyd yn hoffi gwneud gwaith llaw. Ers bod yn aelod o'r Eglwys Fethodistaidd rwyf wedi cael fy hun yn cynrychioli Synod Cymru ar sawl pwyllgor ac rwyf wrth fy modd yn gweneud hyn.

### Gweithredu Dros Blant

| | |
|---|---|
| St Thomas' Monday Club, Mynydd y Fflint | £280.00 |
| Capel Salem, Rhyd-y-Foel | £210.00 |
| Ardal De Gwynedd | £250.00 |
| Capel Peniel, Llanelwy | £200.00 |
| Capel Bethel, Rhiwbeina, Caerdydd | £100.00 |
| Mrs Sheila Ann Thomas | £50.00 |
| Parch. Ddr Jennie Hurd | £25.00 |

*Gyda diolch am bob cyfraniad,*
*unwaith eto.*
*Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan*

# Fforwm Ieuenctid Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru


Un o'r meysydd lle mae'r Eglwys Fethodistaidd wedi bod yn flaengar ers blynyddoedd yw'r ymrwymiad i alluogi plant, pobl ifanc a phobl o bob oed i gymryd rhan weithredol yn y ffordd y mae pethau'n cael eu rhoi ar waith a'u datblygu o fewn yr Eglwys.

Cytunwyd ar strategaeth i alluogi hyn i ddigwydd, *The Youth Participation Strategy (YPS),* gan y Gynhadledd Fethodistaidd yn 2007. Roedd y ffordd arloesol hon o weithredu yn ymgais i unioni'r cydbwysedd ac i ddosrannu grym yn yr eglwysi. Mae'n herio'r Eglwys i glywed barn a chyfraniadau pobl ifanc ar bob lefel – trwy ei strwythurau, ei phwyllgorau, ei pholisïau a'i harferion.

Rhan o'r strategaeth yma yng Nghymru yw'r Fforwm Ieuenctid a gynhelir ar Fedi 17eg 2016 yng Ngholeg Hafren, Y Drenewydd. Mae'r Fforwm yn cynnig cyfle i bobl ifanc 11-18 oed leisio barn. Trwy amrywiol weithgareddau a drefnir gan y bobl ifanc eu hunain, cânt drafod pynciau sydd yn bwysig iddynt a chyflwyno eu syniadau a'u hawgrymiadau i'r Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru a'r Cyfundeb trwy'r ddau Synod a'r Gynhadledd Plant ac Ieuenctid *3Generate,* yn ogystal â thrwy eu cynrychiolwyr i'r Gynhadledd Fethodistaidd.

Mae'r strategaeth hon yn rhan o weledigaeth ehangach yr Eglwys Fethodistaidd i alluogi pawb, nid yn unig plant ac ieuenctid, i gyfranogi a mynegi barn er mwyn llywio gwaith yr Eglwys at y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth gellir cysylltu â Delyth Wyn Davies, delythd@methodistchurch.org.uk (07799 902576)



## Seion, Pwllheli

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion at Mrs Megan Jones, Pensarn, sydd wedi syrthio a thorri ei braich. Cofion cynnes hefyd at Mrs Dilys Jones, Clwydfor, a Mrs Betty Evans, Nefyn, sydd erbyn hyn yn aelod yn Seion gan fod Moriah, Nefyn wedi cau. Gobeithio eich bod chithau eich dwy yn teimlo'n well.

**Y GRAWYS A'R PASG**
Cynhaliwyd cyfarfod undebol y Grawys yn Seion ar Fawrth y 7fed, dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Gwyn Thomas. Ar nos Sul y Pasg cafwyd gwasanaeth undebol yn Seion a chymerwyd rhan gan aelodau o'r holl eglwysi. Y Parchedig Bryn Williams, Capel y Drindod, oedd yn llywyddu.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â Myfanwy ac Arfon Roberts ar farwolaeth tad Myfanwy.

*Gohebydd – Elizabeth D. Owen*

## Bethel, Rhiwbeina

**GENEDIGAETH**
Llongyfarchiadau i Nerys a Dafydd Frater, Maes y Bont ger Crosshands, ar enedigaeth Iwan Rhys ar 26 Mawrth yn Ysbyty Glangwili. Mae Iwan Rhys yn frawd bach i Gruff ac yn ŵyr arall i Wyn a Julie Jones, yr Eglwys Newydd.

**CROESO ADRE**
Croeso'n ôl i Llinos Howells, Merthyr, ar ôl ei gwyliau tri mis yn crwydro'r byd. Mae Llinos yn ferch i'r diweddar Barchedig a Mrs Tudor Davies. Llongyfarchiadau iddi hefyd ar ddod yn fam-gu i Tadhg draw yn yr Iwerddon.

**BORE GOFFI**
Er budd Cymorth Cristnogol y cynhaliwyd Bore Goffi ym Methel fore Mawrth 12 Ebrill pryd y cawsom gwmni Peredur Griffiths, swyddog gyda'r elusen yng Nghymru. Daeth nifer dda i gefnogi gydag elw'r bore yn £400.

**LLONGYFARCH**
Mae John Rogers yn aelod ffyddlon iawn yn yr oedfaon ym Methel. Llongyfarchiadau mawr iddo ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed ar 23 Ebrill.

*Gohebydd – Gwilym E Roberts*

## Pendref, Dinbych

**ADDOLI YM MHENDREF A PHENIEL**
Parhawn i addoli yn y Festri oherwydd disgwyl a wnawn o hyd am ganiatâd i wneud y gwaith angenrheidiol ar gapel a thŷ capel Pendref. Teg dweud fod y sefyllfa yn un rhwystredig! Diolchwn i'r Parchedigion Tudur Rowlands, Cledwyn Parry a Tom Evans Williams am arwain ein haddoliad, hefyd i Enid Mair Davies ac Elizabeth Jones. Buom hefyd yn cyd-addoli ym Mheniel Llanelwy a chawsom gyfle i gyd-addoli ag eglwysi eraill Dinbych yn ystod oedfa undebol Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd sawl cyfarfod gweddi bendithiol gydag aelodau Pendref a Pheniel yn cymryd rhan.

Rydym yn falch fod y Parchedig Cledwyn Parry a Mrs Diana Roberts yn ôl yn cyd-addoli â ni a dymunwn wellhad buan i Mrs Rhiannon Rogers.

**FFAIR WANWYN**
Cynhaliwyd Ffair Wanwyn lwyddiannus yng Nghanolfan Eirianfa ar Fai 7fed. Diolch am gymorth a chyfraniadau pawb.

*Gohebwyr – Mary Jones a Rhiannon Rogers*

## Ebeneser, Treuddyn

**DYDD GWEDDI**
Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Chwiorydd yn Ebeneser eleni o dan arweiniad Mrs Mary Roberts, gydag anerchiad gan y Parchedig Eirlys Gruffydd. Mrs Margaret Roberts oedd wrth yr organ.

**BEDYDD**
Braf oedd gweld cynulleidfa dda yn y capel pan fedyddiwyd George William Harrison o'r Hob ar brynhawn Sul yn ddiweddar. Mae George yn perthyn i deulu Mrs Siân Williams. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Eirlys Gruffydd gyda Mrs Margaret Roberts yn cyfeilio.

**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Estynnwn ein llongyfarchiadau i Mrs Gwyneth Jones sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Cafodd ddiwrnod hapus iawn yng nghwmni ei theulu a'i ffrindiau. Dyma lun pedair cenhedlaeth o'r teulu - Gwyneth Jones, Olga, Paul ac Eve Manning.

**Y GYMDEITHAS**
Mae'r gymdeithas wedi ailgychwyn gyda Mr Dewi Hughes yn dangos hen luniau o'r ardal. Bydd y cyfarfodydd yn parhau trwy fisoedd yr haf.

*Gohebydd – Maldwyn Roberts*

## Ardal Môn ac Arfon

**ER COF ANNWYL AM MERFYN JONES**
Wedi cystudd blin, hunodd Robert Merfyn Jones yn dawel yng nghwmni ei deulu ar 15 Mawrth 2016, yn 77 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i briod Mrs Mary Christine Jones, eu merch Einir a'r teulu oll yn eu colled a'u hiraeth.

Un o Nefyn oedd Merfyn ac fe ddechreuodd bregethu yn 16 oed, ym Moriah yr Eglwys Fethodistaidd, Nefyn. Bu'n pregethu am gyfnod o drigain mlynedd yn ogystal â bod yn fugail gofalus ar sawl eglwys. Yn ddoeth ei gyngor, un o'i gryfderau mawr oedd y ffordd roedd yn gallu cyrraedd a chyffwrdd â phob math o bobl, gan dawelu unrhyw ansicrwydd a gwneud i bobl deimlo'n hyderus a gobeithiol. Bu Merfyn yn gymorth mawr i lawer ac yn gaffaeliad amhrisiadwy i waith yr Eglwys yn ardal Môn ac Arfon.

Braint oedd rhannu o gyfeillgarwch Merfyn, gan gydgerdded yn aml ag ef o amgylch tref Caernarfon yn gynnar yn y bore pan fyddai'n mynd â Siôn, y ci bach ffyddlon, am dro. Melys iawn yr atgofion a diolch am y gwmnïaeth ddifyr. Boed i Robert Merfyn Jones orffwys mewn tangnefedd.

*Y Parchedig Gwynfor Williams*

## Ebeneser, Caernarfon

**GŴYL DDEWI A'R GROGLITH**
I ddathlu gŵyl ein nawddsant, cawsom swper traddodiadol Cymreig o gawl cennin, bara brith a theisen gri ac yna fe wnaethom fwynhau doniau Parti Llewyrch dan arweiniad Ilid Ann Jones. Ar fore dydd Gwener y Groglith cynhaliwyd Gwasanaeth y Cymun Bendigaid undebol yn Ebeneser dan arweiniad y Parchedigion Gwynfor Williams, Harri Parri a Mererid Mair. Canwyd deuawd gan Morwenna Roberts a June Aubrey ac unawd gan John Howard Hughes a chyfeiliwyd ar yr



*Pen-blwydd arbennig*

organ gan Eira Owain. Ar derfyn y gwasanaeth gorymdeithiwyd o amgylch y dref ac yna cynhaliwyd gwasanaeth teirawr yn Eglwys y Santes Fair.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Mary Christine a'r teulu oll ym marwolaeth Merfyn Jones. Cydymdeimlwn hefyd â Megan Roberts ym marwolaeth ei chwaer Dorothy.

*Gohebydd – Branwen L. Edwards*

## Shiloh, Tregarth

**OEDFA FENDITHIOL**
Ar Sul y Blodau cafwyd Oedfa Deulu a chymerwyd rhan gan Huw Morris Jones, Ifan Rhys, Myfi Celyn, Nel Mai, Gwenno Roberts a Iestyn Roberts. Croesawyd Delyth Wyn Davies i'n plith ac fe gyflwynodd hanes Sul y Blodau drwy gyfrwng llun a stori. Cafodd pawb o'r gynulleidfa gyfle i gyfrannu gweddi a llun yn cyfleu arwyddocâd y Pasg.

**DATHLU BOD YN NAIN A TAID**
Llongyfarchiadau i Gwen a Dafydd Jones, Bangor, ar ddod yn Nain a Taid i Mali Wyn, merch fach i'w mab Gavin a'i briod. Yr un yw ein dymuniadau da i Eirwen a Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, ar enedigaeth Seth, mab bach i Elwyn a Kate a brawd bach i Greta.

**PROFEDIGAETH**
Daeth y newyddion trist am farwolaeth dwy a fu'n aelodau yn Shiloh am flynyddoedd, sef Mrs Beti Whitehead, gynt o Gorwel Deg, Tregarth, a Mrs Lilian Brocklebank, Bro Syr Ifor. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teuluoedd yn eu galar.

**CWBLHAU HANNER MARATHON**
Llongyfarchiadau i Nia Hughes, Tyddyn Dicwm Bach, merch Eirwen a Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, a lwyddodd i gwblhau Ras Hanner Marathon y Byd yng Nghaerdydd ar ddydd Sadwrn, Mawrth 26, mewn amser ardderchog sef dwy awr ac un deg tri munud.

*Gohebydd – Gwenda Davies*

## Ardal Glannau Maelor

**ER COF ANNWYL AM MILLICENT HOPWOOD**
Ystyr yr enw Millicent yw 'nerth mewn gwaith neu lafur' ac yn sicr bu Millicent Hopwood, annwyl briod y diweddar Barchedig J.T. Hopwood, yn weithgar ar hyd ei hoes faith. Fe hunodd yn dawel ar 1 Ebrill 2016, yn 98 mlwydd oed.

Diolchwn am gyfraniad amhrisiadwy Mili i fywyd yr ardal. Coedpoeth oedd ei milltir sgwâr, lle bu'n gweithio, yn cymdeithasu ac yn addoli. Diolchwn am ei gwaith fel prifathrawes Ysgol Penygelli. Sefydlodd ddosbarth Cymraeg yn yr ysgol gan sicrhau y byddai plant Coedpoeth yn derbyn eu haddysg gynnar yn Gymraeg am y tro cyntaf. Cofiwn am ei chyfraniad cyson am dros saith deg o flynyddoedd i Gymdeithas y Felin yn y pentref ac am ei gwaith yn trefnu casgliad blynyddol Cymorth Cristnogol gyda'r diweddar Elwyn Rogers. Bu'n ohebydd Coedpoeth i bapur bro Y Clawdd am lawer blwyddyn, yn un o lywodraethwyr Ysgol Gymraeg Bryn Tabor, yn wirfoddolwr yn siop Ysbyty Maelor a chyda phryd ar glud, yn ogystal â helpu Grŵp Gofal Coedpoeth.

Roedd gan Mili stôr o wybodaeth ac o hanesion difrif a doniol a meddai ar y ddawn i'w hadrodd yn ddifyr. Pan gyrhaeddodd naw deg oed, cyfansoddodd y diweddar Alun Davies yr englyn hwn iddi:

Un o fil ydwyt Mili; un brysur
a'r brys sydd yn profi
nad henaint yw ninety
nad hen ond ieuanc wyt ti.

Bu Mili'n aelod ffyddlon yn yr Eglwys Fethodistaidd ar hyd ei hoes. Bu'n bregethwr ac yn dal amrywiol swyddi mewn capel a chylchdaith. Diolch amdani hi.

*Emyr Evans*

## Ebeneser, Trefor, Môn

**CROESO**
Braf oedd cael croesawu'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams atom am y tro cyntaf yn ddiweddar. Cofiwn yn annwyl iawn am ei dad y diweddar Robin Coetmor Williams a fu'n dod yma i bregethu. Edrychwn ymlaen at gwmni Dafydd yma eto yn y dyfodol.

**COLLEDION**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr Merfyn Jones, y cofiwn amdano fel pregethwr grymus a dyn cyfeillgar. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu colled. Yr un yw ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mr Hugh Fon Roberts a fu'n dod atom i arwain ein haddoliad.

**DATHLIAD**
Pleser oedd cael bod yn rhan o ddathliad arbennig y Gwyliedydd yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon. Difyr oedd gwrando ar Angharad Tomos yn sôn am gymeriadau'r gyfres Rala Rwdins a gweld Karen Wynne yn gwneud triciau a chael tamaid o deisen i ddathlu.

*Gohebydd – Carys Thomas*

## Y Triniti, Pontarddulais

**LLONGYFARCHIADAU**
Rydym fel Eglwys yn danfon ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau at Margaret Bowen sydd newydd ddathlu ei phen-blwydd yn naw deg. Mae'n un o'n haelodau hynaf a tra medrai bu'n ffyddlon iawn i wasanaethau'r Sul. Eto, er yn ail law, mae'n cael hanes y Triniti, bach a mawr, yn wythnosol gan ei merch Avril Davies sydd ers rhai blynyddoedd bellach yn gofalu am faterion ariannol yr Eglwys. Er i Avril fod fwy nag unwaith yn yr ysbyty o dan sylw llawfeddyg yn lled ddiweddar, mae'n dal ati â'i chyfrifoldebau ac rydym fel Eglwys yn gwerthfawrogi ei hymdrechion yn fawr.

**TOSTRWYDD**
Dymunwn wellhad buan i Raymond Thomas a gafodd lawdriniaeth ac a fu mewn cryn dipyn o boen wedi hynny. Cafodd Alan Abel Thomas yntau lawdriniaeth yn lled ddiweddar: braf yw gallu adrodd ei fod nawr bron yn holliach. Gwellhad llwyr a buan hefyd i Margaret Bowen, a gwympodd yn ei chartref a chael ei chludo i Ysbyty Treforys.

**SUL Y PASG**
Roedd bore Sul y Pasg yn heulog iawn ac roedd yn braf gweld y Fynwent, sydd â thros gant a hanner o feddau, yn fwrlwm o flodau lliwgar. Roedd Gwasanaeth y Cymun y bore hwn o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr Ian Morris. Estynnwyd croeso arbennig gan Einir Evans, Ysgrifennydd yr Eglwys, i fam Ian, sydd newydd golli ei gŵr. Mae Einir â gofal mwy nag un swydd yn yr Eglwys; mae ganddi'r ddawn a'r parodrwydd i lanw bron unrhyw fwlch sydd yn codi.

**MWY O HANES Y TRINITI**



Fel llawer o eglwysi, mae rhif yr aelodau yn fach ac yn lleihau, os yn araf. Rhif yr aelodaeth ar y foment yw 28. Rydym yn ffodus yn y Triniti oherwydd nad yw'r capel yn fawr o ran maint, efallai'r lleiaf o gapeli Pontarddulais, a bod gennym hefyd rywfaint o incwm o rent y Tŷ Capel. Yn bwysicach efallai, mae llawer o'r aelodau wedi eu magu yn yr Eglwys a'u gwreiddiau'n ddwfn yn hanes y Triniti o'r cychwyn, fel y tystia'r enwau ar y beddau yn y fynwent o amgylch y Capel. Agorwyd drysau'r Capel am y tro cyntaf yn 1891 ac i ddathlu'r canmlwyddiant gwahoddwyd un o'n cyn-weinidogion atom sef y diweddar Barchedig Trefor Parry. Rydym fel Eglwys Fethodistaidd Wesleaidd yn gweithio law yn llaw ac yn cydaddoli ag Eglwysi'r enwadau eraill yn y pentref, sef Eglwys yr Annibynwyr Hope-Siloh,

*parhad ar dudalen 10*

# Dewch bawb ynghyd

gan Angharad Tomos

Wn i ddim pwy gafodd y syniad efo'r dathliad. Fel deudodd Robin, y peth amlwg i'w wneud fyddai gwahodd pobl amlwg i roi darlith ar hanes cylchgronau'r Wesleaid, ond nid dyna wnawd. Wyddwn i ddim yn iawn beth i'w ddisgwyl wrth fynd drwy ddrws festri Ebeneser, Caernarfon ar y 9fed o Ebrill, i Ddathliad Rhifyn 200 y *Gwyliedydd*.

Dyna lle roeddent, dros hanner cant, yn morio canu i gyfeiliant gitâr Edward Morus Jones, yn groes-doriad o oedran, ond yn rhai hŷn gan mwyaf. Ac Edward, yn ei ddull dihafal ei hun, yn ein herio i godi o'n cadeiriau wrth ganu 'Haleliwia!', ac i wneud y stumiau i'r gân boblogaidd, 'Pwy wnaeth y sêr uwchben?' Fyddwn i ddim wedi mentro efo'r fath ganeuon, ond mi weithiodd. Mae yna ryddid weithiau mewn symud ein cyrff yn ogystal â'n tafodau wrth foli.

Cafwyd gwledd o ginio - yn frechdanau amrywiol ac yn gacenni blasus. Rôn i yn eistedd wrth ymyl Kariad y Clown, yn ei gwisg liwgar, a'r colur sgleiniog a'r steil gwallt unigryw 'sy'n handi i gadw dônyts' eglurodd. Wrth gyd-fwyta, cytunodd Robin a minnau fod eisiau gwneud y math hyn o beth yn amlach. Un peth yw gweld ein gilydd mewn oedfa neu ddarlith, profiad gwahanol yw dod o amgylch bwrdd. Ond mae'n gymundeb â'n gilydd, mae'n wahoddiad i bobl ddod allan o'u tai, ac mae rhywbeth bendithiol mewn cael sgwrs uwchben paned o de a theisen. Diolch i chwiorydd Ebeneser am weini mor ofalus arnom.

Cais am ddiddanu plant oeddwn i wedi ei gael, ac fel arfer, dwi'n diflannu i ryw gornel tra mae oedolion yn siarad. Y tro hwn, dyma gymryd cynulleidfa amrywiol efo'r plant yn y tu blaen a'r rhai hŷn ar y cyrion. Ond y rhai mân oedd yn ateb cwestiynau! Wedi i mi sôn am fyd Rala Rwdins, daeth Karen Wynne i wneud triciau hud sy'n brofiad gwefreiddiol i bob oed.

Y Parch Gwynfor Williams a'r Parch Jennie Hurd a Robin Jones oedd yn cyflwyno eitemau, ac yn y pnawn, cafwyd cynulleidfa wahanol - synnwn i ddim fod bron i gant wedi mynd a dod yn ystod y diwrnod. Yn y stafell neilltuedig, roedd arddangosfa o hanes y *Gwyliedydd* ac roedd Delyth Davies efo gwaith llaw a gwaith lliwio i bobl o bob oed. Dyma gyfle eto i ddod o amgylch bwrdd, ac mae lliwio wedi dod yn ffordd boblogaidd o ymlacio. Diolch i bawb weithiodd i wneud y diwrnod yn llwyddiant, a diolch arbennig i Robin a Ffion am gadw'r *Gwyliedydd* i fynd, nid ar chwarae bach mae rhywun yn gwneud gwaith fel hyn.


*Angharad Tomos a Karen Wynne*

Gyda'r nos, bûm yn myfyrio ar yr achlysur, a deuthum i'r casgliad ein bod yn rhy awyddus yn ein hoes ni i roi gwahanol oedrannau mewn gwahanol garfannau. Ers talwm, doedd pobl ddim yn poeni cymaint. Dyna gyfrinach llwyddiant Steddfod bentref neu garnifal - roedd cyfle i groes doriad oedran gydgymysgu. A pheth iach iawn yw hynny.

Ydi, mae plant yn torri'n rhydd a chrwydro ar y llwyfan, ac mae pobl hŷn yn gallu hepian a bod yn dawedog. Ond droeon eraill, mae gan rai hŷn straeon lu i'w rhannu, ac mae plant yn caru stori a sylw gan unrhyw un. Yn y cymysgedd y mae'r gogoniant.

Nid un math o deip yn unig y mae Duw am ei weld yn ei Eglwys, ond dynoliaeth yn ei holl amrywiaeth. Da cofio hynny o bryd i'w gilydd, a mentro cymysgu a newid y drefn!



# 'Mae'r gerddoriaeth mor brydferth mae'n fy mrifo i'

gan Gareth Blainey

Dyna sut rydw i wedi cyfieithu "It's so beautiful it hurts". Roedd y sylw hwnnw yn un o nifer o sylwadau nodedig wnaeth y newyddiadurwraig Melanie Reid yn ystod y rhaglen "Private Passions" a ddarlledwyd ar BBC Radio 3 ar Ddydd Sul y Pasg eleni. Ar y rhaglen hon, sy'n debyg iawn i 'Beti A'i Phobol' ar Radio Cymru, mae gwesteion yn siarad am eu bywydau ac yn dewis eu hoff gerddoriaeth. Y darn o gerddoriaeth roedd hi'n cyfeirio ato oedd "Beim Schlafengehen" (Syrthio I Gysgu) - y drydedd o "Vier letzte Lieder" (Pedair Cân Olaf) y cyfansoddwr o'r Almaen Richard Strauss ar gyfer llais uchel a cherddorfa. Rydw i'n cytuno gyda Reid fod hon yn gân brydferth ac, wrth iddi hi egluro cymaint o feddwl sydd ganddi o'r gân, dywedodd hi "it really physically hurts".

Roedd clywed Reid yn sôn am deimlo poen corfforol yn drawiadol oherwydd ei bod hi wedi'i pharlysu o'i cheseiliau i lawr. Torrodd ei gwddf a'i chefn ar ôl iddi gael ei thaflu oddi ar gefn ceffyl roedd hi'n ei farchogaeth yn agos at ei chartref yn yr Alban ar ddydd Gwener y Groglith chwe blynedd yn ôl. Mae hi'n ysgrifennu colofn yng nghylchgrawn papur newydd "The Times" bob dydd Sadwrn ac yn y golofn - o dan y teitl "Spinal column" - mae Reid yn sôn am fyw yn gaeth i gadair olwyn. Er gwaethaf ei chyflwr, mae ganddi agwedd bositif ac ar "Private Passions" mynnodd y gallai ei sefyllfa hi fod yn waeth yn sgil y ddamwain ddifrifol gafodd hi. – "Gallwn i fod wedi cael niwed i f'ymennydd neu fethu symud fy mreichiau," meddai hi, a dywedodd fod ei gŵr Dave a'i mab Douglas yn 'arwyr' oherwydd y gefnogaeth maen nhw'n ei rhoi iddi. Ar ôl y ddamwain awgrymodd i'w gŵr y dylsai o ei gadael hi ond dywedodd o wrthi am beidio â bod yn wirion.



Siaradodd Reid ar y rhaglen hefyd am y cyfnod du yr aeth hi drwyddo yn ei misoedd cyntaf yn yr ysbyty ar ôl y ddamwain. Datgelodd hi fod clywed cerddoriaeth - boed yn gân 'bop' neu'n ddarn o gerddoriaeth glasurol - yn gwneud iddi feichio crio. Dyna ichi arwydd clir o'r nerth sydd gan gerddoriaeth i gynhyrfu ein hemosiynau ni fodau dynol; ac arwydd clir o nerth cymeriad Reid ydy'r ffaith ei bod hi erbyn hyn yn gallu siarad yn gyhoeddus am 'gerddoriaeth mor brydferth mae'n fy mrifo i'.




# ADDOLI: ARWAIN A PHREGETHU

Ers 25 mlynedd bellach, bu Pregethwyr Lleol dan hyfforddiant yn yr Eglwys Fethodistaidd yn dilyn cwrs 'Ffydd ac Addoliad'. Gan fod y cwrs i Arweinyddion Addoli hefyd wedi aros yr un fath ers yn agos i 20 mlynedd, penderfynwyd bod angen ailedrych ar y cyrsiau hyn er mwyn adlewyrchu'r newid a fu yng ngwaith pregethwyr ac arweinyddion dros y blynyddoedd. O ganlyniad, fe gomisiynwyd darn newydd o waith er mwyn creu cwrs newydd cynhwysfawr sef 'Addoli: Arwain a Phregethu'.

Gan fod Arweinyddion Addoli yn aml yn gyfrifol am ran helaeth o'r addoli mewn llawer o lefydd o fewn y Cyfundeb, y gobaith yw y byddant yn derbyn yr un sylfaen â Phregethwyr Lleol (Pregethwyr Cynorthwyol). Ond, er i 'Addoli: Arwain a Phregethu' gael ei lunio gydag anghenion darpar arweinyddion a phregethwyr mewn golwg, nid ar eu cyfer nhw yn unig y mae'r cwrs. Bydd nifer o bobl yn cymryd rhan mewn oedfaon trwy ddarllen, arwain gweddïau ac ati; er nad yw'n hanfodol iddynt ddilyn y cwrs, mae llawer ynddo a fyddai'n ddefnyddiol iddynt. Caiff unrhyw un sydd â diddordeb ddilyn y cwrs neu rai modiwlau o'i fewn. Rhannwyd y cwrs yn wyth modiwl, a disgwylir i'r Pregethwyr Lleol dan hyfforddiant gwblhau'r wyth. Bydd yr Arweinyddion Addoli yn dilyn y pedwar cyntaf – gyda chyfle i symud ymlaen os teimlant yr alwad i wneud hynny.

Modiwl 1: Cyfarfod Duw...sylfaen
Modiwl 2: Cyfarfod Duw...ym mywyd yr Eglwys
Modiwl 3: Cyfarfod Duw...mewn bywyd bob dydd
Modiwl 4: Cyfarfod Duw...mewn mannau annisgwyl
Modiwl 5: Gweinidogaeth y Gair
Modiwl 6: Ffydd fywiol
Modiwl 7: Deall ein stori
Modiwl 8: Lleisiau o'r ymylon


Mae ffurf y cwrs yn newydd ac yn ffres, gyda chymysgedd o astudiaeth a myfyrdod unigol, trafodaeth grŵp, a chymhwyso ymarferol ym mhob modiwl. Cewch eich cefnogi yn eich astudiaethau mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys grwpiau gyda thiwtor neu hunan arweiniad, a diwrnodau astudio rhanbarthol. Gobeithir cynnig hyblygrwydd, i weddu i anghenion pawb waeth beth yw eich cefndir cymdeithasol, daearyddol, ieithyddol neu addysgol.

Ym mhob un o'r wyth modiwl y mae tair adran ac ym mhob adran ceir pum pennawd

- Addoli
- Paratoi
- Archwilio
- Cymhwyso a myfyrio
- Ymestyn

Disgwylir i bob un o'r tair adran gymryd tua 20 awr, felly bydd modiwl cyfan yn 60 awr o waith.

Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i fod yn berthnasol i'r Eglwys a'i haelodau yn yr unfed ganrif ar hugain.



Adlewyrchir hyn yng nghynnwys y modiwlau, ac yn y dull y caiff ei gyflwyno ar-lein. Dylai hyn alluogi'r myfyrwyr i gael profiad dysgu llawer mwy effeithiol na dim ond trwy ddefnyddio gwerslyfrau. Mae ymrwymiad i ddysgu ar-lein yn hanfodol i'r cwrs er ei bod yn bosibl argraffu'r deunydd pan fydd angen.

Cyfieithwyd y cwrs i'r Gymraeg ac mae Cadeirydd Synod Cymru, y Parchedig Jennie Hurd, yn cynnig arwain y cwrs yn Gymraeg ac yn casglu enwau pobl sydd yn awyddus i gymryd rhan mewn unrhyw fodd, boed yn Bregethwyr Lleol neu'n Arweinyddion Addoli profiadol neu dan hyfforddiant, neu unrhyw un arall sydd â diddordeb. Os gwelwch yn dda, cysylltwch â Jennie os ydych am gofrestru.


*Sant Ioan Chrystostom, nawddsant pregethwyr*

**A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13**

Eglwys Fethodistiaid Calfinaidd y Gopa ac Eglwysi'r Bedyddwyr, y Tabernacl a'r Babell. Gan ddilyn hen draddodiad rydym yn croesawu capeli'r pentref, yn cynnwys Eglwysi St Teilo a St Mihangel, sydd dan ofal yr Eglwys yng Nghymru, i rannu'r Cymun â ni yn y Triniti ar ddydd Gwener y Groglith.

*Gohebydd – J R Jones*

## Eglwys Unedig Colwyn

**COLLED**

Gyda gofid y clywsom am farwolaeth Mrs Megan Williams ar 5 Mawrth a hithau'n 93 oed. Bu Megan a'i gŵr Harold yn aelodau gweithgar a ffyddlon yn Horeb am flynyddoedd lawer. Bedyddiwyd Megan yn Horeb ac yno y priodwyd hi a Harold. Buasent wedi bod yn ŵr a gwraig am 60 o flynyddoedd ar Fawrth 28. Gyda thristwch mawr hefyd y cofnodwn farwolaeth Harold yntau, fis yn ddiweddarach ar 8 Ebrill. Cydymdeimlwn yn ddwys â Lynne, Gareth a Rae, chwaer Harold sef Janet, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**GWELLHAD BUAN**

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Ann Owen a gafodd lawdriniaeth yn Wrecsam a phob dymuniad da am wellhad i'r cleifion oll.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## Ebeneser, Dolgellau

**GWELLA**

Da clywed bod Carys, merch Mr a Mrs Hugh Humphreys, Penbryn Glas, yn gwella'n ara' deg. Dymunwn adferiad buan iddi.

**CROESO**

Pleser ydyw cael croesawu i'n gwasanaethau Elinor, chwaer Carys, sydd gartref dros dro o Awstralia.

**CYDYMDEIMLO**

Cydymdeimlwn â Mrs Pat Owen, sy'n organydd yn Ebeneser, ar golli ei mam yn ddiweddar.

**CYNHEBRWNG**

Ar y deunawfed o Fawrth cynhaliwyd gwasanaeth angladdol hyfryd i Mrs E. Ogden o dan arweiniad y Parchedig Patrick Slattery. Bu Mrs Ogden yn selog iawn yng ngwasanaethau Ebeneser am flynyddoedd lawer nes iddi fethu dod oherwydd ei hiechyd.

*Gohebydd – Gwyneth Meredith*

## Seion, Llanrhaeadr ym Mochnant

**DATHLU PRIODAS AUR**

Llongyfarchiadau i John a Julia Evans, Penbryn, Llanrhaeadr ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Bu'r ddau yn byw yn nhŷ capel Seion am flynyddoedd lawer ac yno y magwyd y plant, Mark, Nerys ac Alan. Bydd Julia yn chwarae'r piano yn gyson yn ein hoedfaon. Trefnodd y teulu barti yn y neuadd i ddathlu'r achlysur. Rhannwyd y rhoddion ariannol a dderbyniodd y ddau gan deulu a chyfeillion fel a ganlyn: £560 i hosbis Sir Amwythig, £560 i gronfa canser Lingden Davies a £460 i ward y plant yn yr ysbyty yn Birmingham.

*Gohebydd – Rona Morris*



*Cyflwyno sieciau i achosion da*

## St Paul, Aberystwyth

**GWASANAETHAU**

Cynhaliwyd gwasanaeth cyd-enwadol Cymraeg eleni i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Nghanolfan y Morlan. Ar nos Iau Cablyd cawsom wasanaeth dwyieithog unedig yn Eglwys Dewi Sant ac ar fore dydd Gwener y Groglith trefnwyd gwasanaeth unedig Cymraeg yn Eglwys y Santes Fair. Yn dilyn y gwasanaeth, gorymdeithiodd aelodau o holl gapeli ac eglwysi Aberystwyth trwy'r dref, gan orffen gyda gwasanaeth byr yn yr awyr agored yn Stryd y Popty. Pleser arbennig inni oedd croesawu'r Parch Ddr Jennie Hurd ar Sul y Pasg, a'r gwasanaeth yn cynnwys dathlu Swper yr Arglwydd.

**YMWELIAD ARBENNIG**

Ar brynhawn18 Mawrth cawsom y fraint yn St Paul o groesawu Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd, Dr Jill Barber. Roedd Jill yn fyfyrwraig yn Aberystwyth ac yn aelod brwd o'r capel Saesneg a Chymdeithas y Myfyrwyr (MethSoc). Yma fe gwrddodd â'i gŵr Peter. Yn nes ymlaen daethant yn ôl i Aberystwyth pan oedd Peter yn Arolygwr y gylchdaith yn ystod y cyfnod pan godwyd Canolfan St Paul a chapel St Thomas newydd yn Llambed. Mae'n amlwg bod Aberystwyth yn agos iawn at galon Jill. Siaradodd â ni am yr hyn oll y mae capeli'r gylchdaith wedi'i gyfrannu i fywyd yr Eglwys Fethodistaidd gan ein hatgoffa am gyfraniad yr aelodau yn plannu a chryfhau ffydd ymysg y myfyrwyr. Cafodd pawb ei ysbrydoli gan ei brwdfrydedd a'i hatgofion cynnes.

**LLONGYFARCHIADAU**

Llawenydd mawr i'r aelodau oedd clywed am enedigaeth babanod i ddau deulu yn y capel. Cafodd Fran a Michael Edwards ŵyr newydd. Mae Max David Michael yn fab i Simon a Samantha ac yn frawd i Leon. Cafodd Mary a Lionel Madden ŵyr ac wyres newydd pan anwyd gefeilliaid i Hywel ac Emma. Enw'r ddau fach yw Matthew Siôn a Lauren Mair ac maent yn frawd a chwaer i James Rhys. Llongyfarchwyd y ddau deulu yn gynnes gan aelodau'r capel.

*Gohebydd – Lionel Madden*

## Ardal Bathafarn

**GWELLHAD BUAN**

Anfonwn eich cofion anwylaf at Ifor Parry, sydd yn cael gofal ym Mhlas Gwyn, ynghyd â'i briod Menna sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda hefyd i Mary Jones, Glyndyfrdwy ac i Margaret Evans a Dilys Jones, Bathafarn. Da deall fod Gretta Davies gartref o'r ysbyty yn awr. Gobeithio y daw cynhesrwydd y gwanwyn â hwb i bawb a fu'n anhwylus.

**CYMDEITHAS CAPEL BATHAFARN**

Hyfryd oedd cael cwmni Awen, merch Rhian a Rhodri, a ddaeth i sôn wrthym am ei hymweliad ag America. Diolch hefyd i Lowri am ddod atom i sôn am wahanol hadau – noson ddifyr ac addysgiadol iawn, gyda chyfle i ninnau blannu hadau.

**BYD MARY JONES**

Roedd yn braf dod at ein gilydd yn Eglwys Llanycil a chofio am Mary Jones, yr eneth hynod a gerddodd o Lanfihangel

y Pennant i'r Bala. Fe wnaethom fwynhau treulio amser gyda chyfeillion o wahanol ardaloedd yn Synod Cymru, yng nghwmni hwyliog y Parchedig Steve Wild, Llywydd y Gynhadledd. Yna, yn y Bala, cawsom weld Beibl Mary Jones ei hun. Am ychydig ddyddiau yn unig yr oedd i'w weld yn y Bala, dan ofal Dr Onesimus Ngundu o Archifdy Cymdeithas y Beibl yng Nghaergrawnt. Diwrnod i'w gofio i ardal y Bala ac i ninnau i gyd.

**GWASANAETH SUL Y BLODAU YM MATHAFARN**
Bellach mae'n saith deg mlynedd ers i'r diweddar R.H. Williams ddechrau'r gwasanaeth a gynhelir yn flynyddol gan gofio am ei fab a fu farw. Teimladwy iawn oedd gweld cyn-aelodau hen gapel Wesle Graigfechan yn mynd â blodau at yr allor. Diolch i Marian ac Elwyn, Corwen, am gymryd rhan a hefyd i Megan Jessica, Tomos, Osian ac Ynyr, Gwyn Hafod Elwy a Margaret Morgan, Edwina a Ceinwen. Diddorol a chyfoes oedd sgwrs y Parchedig Marc Morgan, neges i ddenu plant ac oedolion. Diolch i Rhian am gyfeilio ac am roi'r blodau, ac i Bob am y blodau ar y byrddau te. Aethpwyd ymlaen i Awelon wedyn a mwynhau te a baratowyd gan Mairwen gyda chymorth aelodau eraill.

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog i Mrs Olwen Jones, Rhydymeudwy, ar ddod yn hen nain unwaith eto. Ganwyd Lowri Alwena i Dafydd a Gemma yn y Barri, chwaer fach i Tomos Wyn ac wyres i Albert Brown. Pob bendith arnynt fel teulu.

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Millicent Hopwood. Cofiwn amdani fel cymeriad llawn hiwmor y byddai pawb wrth ei fodd yn gwrando arni pan ddeuai i'n hannerch. Byddai hefyd yn arweinydd brwdfrydig yn Eisteddfod y Dalaith.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

## Tabernacl, Llanfyllin

**DRWS AGORED**
Siaradwr gwadd y gymdeithas ym mis Mawrth oedd y Parchedig Jennie Hurd. Yn Lloegr y ganed Jennie, ond dywedodd iddi ddatblygu diddordeb mawr yng Nghymru a'r diwylliant Cymreig. Roedd wedi dod â nifer o eitemau er mwyn dangos rhai o'r pethau y mae'n eu hoffi am Gymru: model o ddafad gan fod defaid mor bwysig i'r tirlun a'r economi; llyfrau barddoniaeth; geiriadur Cymraeg. Dangosodd hefyd eiconau modern o hen seintiau Cymru a dywedodd mor bwysig yw ein traddodiad crefyddol. Roedd sgwrs ddiddorol Jennie yn llawn hiwmor a chafodd pawb fwynhad o'i chlywed.

Ym mis Ebrill croesawyd Bethan Morris, merch Tom a Rona Morris, Llanrhaeadr ym Mochnant. Ar hyn o bryd mae Bethan yn athrawes yn Ysgol Dyffryn Banw ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n gweithio yn Lesotho a hefyd yn Panama. Er bod sawl her wedi wynebu Bethan, soniodd yn frwdfrydig am ei phrofiadau gan ddangos anwyldeb tuag at y ddwy wlad a'u trigolion a oedd wedi rhoi cymaint o groeso iddi. Yn bendant deg allan o ddeg am sgwrs mor ddiddorol - ynghyd â seren aur, Bethan!


*Te gyda'r Is-lywydd*

**YMWELIAD IS-LYWYDD Y GYNHADLEDD**
Hyfryd oedd cael cyfarfod yn Festri'r Tabernacl ar brynhawn braf o wanwyn er mwyn croesawu Is-lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd, y Dr Jill Barber. Soniodd Dr Barber wrthym am ei gwaith fel Is-lywydd sydd wedi mynd â hi i lawer man ym Mhrydain a thramor. Bu ar daith arbennig i Dde America a chael profiadau cofiadwy yno. Mwynhawyd te hyfryd a baratowyd gan Gwen Tuner, Llywela Roberts a Margaret Thomas.

**CYDYMDEIMLO**
Bu farw Eirlys Jones, Y Parc, Llanfyllin, a hithau'n 92 mlwydd oed. Yn ei deyrnged hyfryd iddi yn ei hangladd, soniodd Tom Ellis am ei gwasanaeth clodwiw i'r gymuned, yn enwedig ei gwaith gydag Ambiwlans Sant Ioan a Chyfeillion Llwynteg. Cydymdeimlwn yn fawr â'i merch Janet a'i chymar John a'r plant Sioned a Jim yn eu hiraeth ar ôl mam a nain annwyl.

Yn yr un modd, cydymdeimlwn yn gywir iawn â theulu'r diweddar Mrs Elizabeth Jones, Coedarle, Bwlchycibau, gweddw'r diweddar Eddie Jones, a fu farw'n 92 oed.

Bu Elizabeth yn aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel y Tabernacl. Talwyd teyrnged iddi gan ei gweinidog y Parchedig Gwyndaf Richards, gan sôn am ei diwydrwydd a'i chyfraniad i gymuned Llanfyllin yn ogystal â Bwlchycibau.

**Y PASG**
Paratowyd oedfa undebol eglwysi Llanfyllin gan yr athrawon Rhian Lloyd Evans ac Eleri Jones a'r organydd Eldrydd Jones. Cymerwyd rhan gan y plant a'r ieuenctid a chafwyd anerchiad gan Tom Ellis oedd yn apelio at bob oed.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs Betty Ellis, Llwynteg, sydd wedi cael llawdriniaeth ddwys yn Ysbyty Amwythig.

**BORE GOFFI**
Diolch i bawb a gefnogodd y Bore Goffi llwyddiannus iawn a drefnwyd yn Festri Eglwys Myllin Sant gan swyddogion Cymorth Cristnogol yn Llanfyllin, er budd trigolion Ecuador ar ôl y ddaeargryn yn ddiweddar. Codwyd £240 sydd yn ymdrech ardderchog.

*Gohebydd – Robin Hughes gyda chymorth Rhoswen Charles, Mair Ellis ac Alwena Francis*

## Pont Robert

**CYDYMDEIMLO**
Er yn ddiweddar rydym yn cydymdeimlo â Bronwen a Huw Gwalchmai sydd wedi colli perthynas.

**GWERTHU'R CAPEL**
Er mai yn y Neuadd y byddwn yn addoli ers chwe blynedd bellach, daeth tristwch o feddwl bod y capel wedi'i werthu. Gobeithio y ceir ei weld yn dŷ annedd yn y dyfodol.

**LLONGYFARCHIADAU**
Rydym yn llongyfarch Elen Wyn Jones, Bodyddon Fach, Llanfyllin (wyres Gwen a Tegwyn) ar ennill Ysgoloriaeth i Brifysgol Bangor. Pob dymuniad da iddi. Llongyfarchiadau hefyd i Gwen a Tegwyn, Penwtra, sydd wedi dathlu penblwydd priodas emrallt (55 mlynedd) ddechrau mis Ebrill. Mae'r ddau yn aelodau selog a chyd-drysoryddion. Bu Gwen yn organydd am hanner can mlynedd ac mae Tegwyn yn parhau i godi'r canu; mae'r ddau yn weithgar hefo'r pethau cymdeithasol yn yr ardal.

*Gohebydd – Margaret Blainey*

# Merched Methodistaidd – Cyfarfod y Gwanwyn



*O'r chwith i'r dde, Gwenda, Margaret, Elizabeth, Rebecca, Sheila Ann, Rona a Ffion*

Cawsom groeso cynnes gan aelodau capel Bethel Prestatyn, ddydd Sadwrn Ebrill 30, a mwynhau cwmni cyfeillion hen a newydd. Arweiniwyd y defosiwn ar ddechrau'r cyfarfod gan Mrs Gwenda Humphries, ein llywydd. Cyfeiriodd at ddylanwad y chwiorydd o fewn yr eglwys leol a fu'n gyfrwng i feithrin ei ffydd a'i hannog i dyfu yn llawn aelod o'r eglwys. Cyflwynodd gyfieithiad y Parch. Gwilym R. Tilsley o'r emyn "Sicrwydd Bendigaid" gyda'r gytgan gyfarwydd "Dyma fy Stori, dyma fy nghân...". Y cwpled yma a fyddai'n cysylltu dewisiadau chwech ohonom, y gofynnwyd inni gyflwyno un o'n hoff emynau i'w canu gan y gynulleidfa yn ystod y prynhawn.

Geiriau Morswyn am gysgodi yng Nghraig yr Oesoedd, ar y dôn In Memoriam, oedd dewis Margaret Morgan. Yna cawsom ddewis Sheila Ann Thomas sef "Beth yw'r tristwch sydd ar gerdded..." gan y diweddar Barch. Arthur Williams, a fu'n weinidog arni yng Nghorwen, pan dderbyniwyd hi'n gyflawn aelod. Bu iddi hi a'i diweddar ŵr y Parch. W. O. Thomas werthfawrogi'n fawr arweiniad a chyfeillgarwch Arthur Williams.

Braf oedd cael cwmni Rebecca Miller gyda ni am y tro cyntaf yn ein cyfarfod. Daeth hi a'r teulu i fyw i Abergele y llynedd ac mae ei gŵr y Diacon Jonathan Miller yn Arweinydd Ardaloedd Dyffryn Clwyd a Dyffryn Conwy yn Synod Cymru. Cyflwynodd Rebecca "Dyma gariad fel y moroedd...", emyn a'i hysbrydolodd pan oedd yn fyfyrwraig yn Aberystwyth. "O iachawdwriaeth gadarn.." a ddewisodd Ffion Rowlinson. Wrth gydganu geiriau grymus William Williams fe gafodd pob un ohonom brofi'r hedd o ymddiried ein pryderon dyrys i ofal Crist y Groes.

Bu geiriau Ieuan Gwyllt "Mae d'eisiau di bob awr..." yn gyfrwng cysur ac arweiniad i deulu Elizabeth Jones mewn cynhebrwng a phriodas fel ei gilydd. Cawsom wrando ar gryno ddisg o ddehongliad mwy cyfoes gan Gwenda a Gaynor. Y geiriau a ysgrifennwyd ganrif a hanner yn ôl yn parhau i gyffwrdd y galon ac yn gyfrwng bendith. Yna yn olaf, cyfieithiad bywiog y Parch. E.H. Griffiths o emyn Alfred H. Ackley oedd dewis Rona Morris. Mae'n emyn llawn egni a gobaith. Diolch o galon i Angela Roberts, un o organyddion dawnus Bethel, am ei chymorth hithau yn cyfeilio ac yn arwain y canu yn gywrain.

**Nodyn i'ch dyddiadur**

Cynhelir cyfarfod yr Hydref yng nghapel Tabernacl, Llanfyllin am 2.30 y prynhawn ar y 15 fed o Hydref 2016. Disgwylir y Parch. Tecwyn Ifan yno i annerch y gynulleidfa. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni yno.

# FFORWM UN GENHADAETH

gan y Diacon Stephen Roe

Beth sydd mewn enw? Caiff rhywun yr argraff weithiau fod cwmni neu gyfundrefn yn newid enw dim ond er mwyn newid enw. Pwy sy'n cofio enw newydd Swyddfa'r Post yn 2002?* Ond weithiau fe newidir enw er mwyn adlewyrchu newid yng ngwaith neu bwrpas mudiad neu sefydliad. Er enghraifft, newidiodd 'Cartrefi Cenedlaethol Plant' (National Children's Home) yr enw i 'Gweithredu dros Blant' am fod y ffordd y mae'r elusen yn cynorthwyo plant a theuluoedd wedi newid.

Fis Ebrill eleni, cynrychiolais Synod Cymru yn Fforwm Un Genhadaeth yr Eglwys Fethodistaidd, a elwid gynt yn Fforwm Cenhadaeth Fyd-eang. Newidiwyd yr enw oherwydd ymdeimlad na ddylid gwahaniaethu rhwng cenhadaeth dramor a chenhadaeth ym Mhrydain: cenhadaeth Duw yw'r cyfan. Cynhaliwyd y Fforwm yn Hinsley Hall, Leeds, Canolfan Encil Esgobaeth Gatholig Leeds – sef Wesley College, Headingley, gynt. Dyma rai o'r storïau a glywsom dros y penwythnos.

### Hanesion o Dramor

**Sierra Leone**

Hanes ei hymweliad â Sierra Leone a gawsom gan Bunmi Olayisade, sydd yn gweithio i Swyddfa'r Eglwys Fyd-eang yn Llundain. Yno fe welodd y gwaith a gefnogir gan yr elusen Fethodistaidd *All We Can*. Er nad yw ein bwletinau newyddion yn sôn am ebola mwyach, mae canlyniadau difrifol yr epidemig yn parhau, yn enwedig ar gyfer y plant a gollodd eu rhieni i'r haint. Dywedodd Bunmi fod *All We Can* wedi llwyddo i helpu un ysbyty i osod paneli haul, sydd yn golygu bod ynni ar gael ddydd a nos erbyn hyn.

**Mecsico**

Trwy Skype, cynhaliwyd sgwrs â'r Parch Xam Murillo, sydd yn weinidog Methodistaidd yn Monterrey. Soniodd am broblem arall na fyddwn yn clywed llawer amdani sef ffoaduriaid sy'n ceisio cyrraedd yr Unol Daleithiau o El Salvador, Nicaragua a Mecsico, rhai ohonynt am resymau economaidd, eraill yn dianc rhag trais. Mae'r daith o Dde Mecsico i'r Gogledd yn cymryd tair i bum wythnos a bydd y rhan fwyaf o'r ffoaduriaid hyn yn teithio ar drên nwyddau, gan neidio arno ac oddi arno ac yntau'n dal i symud. Mae rhai yn cael eu harestio gan yr awdurdodau, sydd yn mynnu pridwerth cyn eu rhyddhau, eraill yn cael eu cipio gan fasnachwyr pobl.

*Parhad ar y dudalen nesaf*

# Pedwarawd y Mans

gan Heulwen M. Ellis



*Gwenllian, Heulwen, Morfudd a Myfanwy*

Mae angen i blant gweinidog Wesle ddangos tipyn o hyblygrwydd wrth symud o le i le. Felly y bu hi yn ein hanes ni'n pedair. Mor gyffrous oedd yr wythnos olaf ym mis Awst – amser newid tŷ cyn y Sul cyntaf ym mis Medi – a ninnau'n ceisio dyfalu sut le y byddem yn ei ddarganfod.

Y lle cyntaf y mae gennyf ryw fath o gof amdano yw Rhuthun, ar ddiwedd y Rhyfel. Bu festri capel Bathafarn yn lloches i ambell grŵp o 'evacuees' ar eu ffordd i lefydd mwy diogel. Arwydd swnllyd ein bod mewn cyfnod o ryfel oedd clywed y seiren yn Neuadd y Dref gyferbyn â'r tŷ. Da oedd cael dathlu diwedd yr ymladd gyda thyrfa fawr ar sgwâr y dref, a'r plant yn cael blasu hufen iâ am y tro cyntaf.

Gwahanol iawn oedd ein cartref nesaf sef Blaenau Ffestiniog, ardal brysur y diwydiant llechi. Byddai fy nhad yn mwynhau cael sgwrsio a thrafod â'r gweithwyr yn ystod eu hawr ginio. Cofiaf sŵn traed y chwarelwyr yn atseinio pan fyddent ar eu ffordd i'r gwaith yn gynnar yn y bore. Roedd gan fans Bryn Myfyr ardd dda i chwarae ynddi. Roedd yno ffrwd fechan oer - hwylus iawn i gadw'r llaeth yn oer yn ystod tywydd poeth. Roedd capel Ebeneser yn brysur bob nos o'r wythnos gyda Chyfarfod Gweddi, Seiat neu Band of Hope i'r plant. Cawsom yno lawer o hyfforddiant a ddylanwadodd yn fawr arnom. Dysgodd Mrs Blodwen Jones ni sut i ganu nodau tonic Solfa. Cofiaf hefyd mor falch oeddwn pan gyhoeddwyd darn bach yr oeddwn wedi'i ysgrifennu yn *Y Winllan,* cylchgrawn y plant. Amser prysur a hapus a gawsom yn y Blaenau.

I'r Rhyl yr aethom wedyn, i Brunswick Villa, tŷ mawr braf. Yno hefyd byddai'r capel yn brysur bob amser. Mawr oedd y pleser pan ddaeth y BBC yno i wneud darllediad. Mr Edward Davies 'Degla' oedd Arweinydd y Gân ac ar wahân i'r canu cynulleidfaol roedd hefyd yn arwain côr, a fyddai'n ymarfer yn festri helaeth capel Brunswick, a ninnau'n aml yn mynd i gysgu yn seiniau hyfryd y lleisiau swynol.

Symud wedyn i Wrecsam lle roedd dau gapel, Jerusalem a Victoria Road, a ninnau'n rhannu ein hamser rhwng y ddau – gwasanaethau yn y bore a'r hwyr yn Jerusalem ac Ysgol Sul yn Victoria Road. Yn Jerusalem roedd Arweinydd y Gân, Mr Walter Williams, yn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu canu'r salmau yn y Llyfr Emynau fel rhan o'r gwasanaeth. Hyfryd ar nos Sul oedd cael cynrychiolaeth dda o Goleg Cartrefle, y coleg hyfforddi athrawon. Roedd digon o fynd yn y capeli, a chyfarfod Gwylnos arbennig bob blwyddyn i groesawu blwyddyn newydd.

Er nad oeddem yn byw gartref yn ystod blynyddoedd olaf ein tad (y diweddar Barchedig Elfyn Ellis) yn y weinidogaeth, byddem yn cael croeso ym mhob man. Da oedd cael cyfarfod pobl Pendref a Salem yn Ninbych a chael mwynhau eu Heisteddfod weithiau – llawer o hwyl i'w gael yno!

Wrth edrych yn ôl, gwelaf mor lwcus oeddem ni fel teulu o gael bod mewn ardaloedd oedd yn ddigon bywiog ar y pryd. Roedd byw yn y Mans yn cyfoethogi ein bywydau, fel bod gennym atgofion hapus a chysylltiad oes â llawer lle. Mor garedig oedd y teulu mawr Wesleaidd ym mhob man a byddaf bob amser yn falch o berthyn i'r teulu hwnnw.

---

*parhad o dudalen 12*

Mae'r Eglwys Fethodistaidd yn cefnogi'r ffoaduriaid trwy gynnig bwyd a lle diogel iddynt aros.

**Francis Asbury**

Yn 1771, apeliodd John Wesley am bregethwyr i fynd yn genhadwyr i'r gwladfeydd Prydeinig yn America, oherwydd nad oedd Eglwys Loegr yn fodlon gwneud hyn. Atebodd Francis Asbury, dyn 26 mlwydd oed o Sandwell yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Yn America y treuliodd weddill ei oes, gan weld geni cenedl newydd, yr Unol Daleithiau, yn dilyn y Rhyfel Annibyniaeth. Yn 1784, oherwydd i Eglwys Loegr barhau i wrthod anfon offeiriaid i America, ordeiniodd Wesley (er nad oedd yn esgob) Thomas Coke yn Arolygydd a'i anfon allan. Pan gyrhaeddodd, ordeiniodd Coke Asbury hefyd yn Arolygydd, a daeth y ddau ohonynt yn esgobion yn Eglwys Fethodistaidd Esgobol America. Teithiodd Asbury filoedd o filltiroedd ar gefn ceffyl, gan sefydlu cynulleidfaoedd newydd ym mhobman. Bu farw yn 1816, ac ar ddydd Sadwrn 9 Ebrill, cynhaliwyd digwyddiadau yn y Black Country Living Museum i nodi 200 mlynedd ers marwolaeth Asbury. Trwy gyswllt fideo, cawsom ni yn Leeds ymuno â'r gynulleidfa yng Nghapel y Methodist New Connexion, a ailadeiladwyd yn yr amgueddfa, i ganu emyn mawr Charles Wesley 'And can it be'.

**Caplaniaeth ym Mhrydain**

Cawsom hanes y Parch Hannah Bucke, sydd yn gweithio fel Caplan Canol y Dref yn Southend a hefyd mewn Parc Thema cyfagos lle mae tua mil o bobl yn gweithio, y rhan fwyaf heb ddim cysylltiad o gwbl â'r Eglwys Gristnogol. Soniodd am y modd y trefnodd arddangosfa o gelfyddyd yn ymwneud â'r Pasg mewn siop wag, a pherfformiad o ddrama'r geni yn y Stryd Fawr. Mae'r Parch David Butterworth yn Gaplan yn y Ganolfan Arddangos Genedlaethol yn Birmingham, lle mae tua thair mil yn gweithio, heb sôn am y miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn. Er nad yw'n dod i adnabod llawer ohonynt yn dda, mae ar gael i bobl, yn gwisgo ei goler gron. Mae'n synnu pa mor aml y daw pobl ato am gymorth a chysur. Pwysleisiodd y ddau siaradwr ein bod yn aml yn defnyddio'r gair 'cenhadaeth' i olygu dod â phobl i mewn i'n capeli a'n heglwysi, ond bod eu gwaith fel caplaniaid yn mynd â nhw allan i gyfarfod â phobl lle maen nhw'n byw ac yn gweithio.

Mae'r Eglwys Fyd-eang ac *All We Can* (MRDF gynt) yn cyhoeddi cylchlythyr bob mis sy'n rhoi gwybodaeth am eu gwaith, gan adrodd storïau o bedwar ban byd ac awgrymu sefyllfaoedd a phobl y gallwn ni weddïo drostynt. Os hoffech chi dderbyn copi o hwn, ar eich cyfer chi eich hun yn bersonol neu i'w roi yn eich Capel, cysylltwch â fi trwy e-bost ar stephen.roe@methodist.org.uk neu ar fy rhif ffôn 01248 717084.

*Consignia

# ABER YN CROESAWU'R SYNOD



Yn Aberystwyth y cynhaliwyd y Synod eleni ar 23 Ebrill. Roedd croeso tywysogaidd yn aros y cynrychiolwyr yno. Diolch yn fawr i gyfeillion Ceredigion am yr holl baratoadau. Arweiniwyd y defosiwn gan y Parchedig James Patron Bell a Bet Holmes a chroesawyd pawb gan y Cadeirydd. Cofiwyd am y rhai a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd gwahanol amgylchiadau anodd. Dymunwyd yn dda i James gan y bydd yn symud i Dalaith Caer a Stoke yn y flwyddyn gyfundebol nesaf a chroesawyd Mr Alun Jones, Swyddog Eiddo newydd y Synod, i'w gyfarfod cyntaf.

**Cynrychiolwyr i'r Gynhadledd**
Cadarnhaodd y Synod mai ein cynrychiolwyr yn y Gynhadledd Fethodistaidd yn Llundain eleni fydd y Parchedig Martin Evans-Jones, y Diacon Stephen Roe, Ms Beti Wyn Holmes a Mr Arfon Williams. Ar gyfer Cynhadledd 2017 cadarnhawyd enwau'r Parchedig Philip Barnett, y Diacon Jonathan Miller, Mrs Maryl Rees a Mr Arfon Williams.

**Parhau i Ddatblygu ein Galwad**
Roedd yn amlwg o glywed y gwahanol adroddiadau fod llawer o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn diwethaf i ofalu am bethau fel eiddo a diogelu; i gydweithio yn ecwmenaidd ag eraill; i godi arian a dangos consýrn am bobl ddifreintiedig ac i chwarae ein rhan yn y Cyfundeb Methodistaidd. Yn rhoi ffocws i waith y Synod ar hyn o bryd y mae "Prosiect Ein Galwad". A ninnau wedi canolbwyntio ar ddwy o'r pedair thema, sef Dysgu a Gofalu ym mlwyddyn gyfundebol 2014-15 ac Addoli eleni, cytunodd y cynrychiolwyr y dylid symud at drydedd thema yn awr sef Gwasanaethu. Pwysleisiwyd fod y themâu i gyd, wrth gwrs, yn cyd-blethu â'i gilydd. Un o'r manteision o fod â thema i ganolbwyntio arni gyda'n gilydd yw fod hynny'n dod â chapeli sydd yn wasgaredig iawn yn ddaearyddol, yn nes at ei gilydd.

**Allwn ni wasanaethu Duw yn well?**
Fel rhan o adroddiad Pwyllgor Gwaith y Synod, cyflwynwyd y syniad o adolygu ein bywyd fel Synod a Chylchdaith. Beth sy'n dda ac yn gryf am ein bywyd gyda'n gilydd? Lle mae'r gwendidau? Lle mae'r cyfleoedd i wasanaethu Duw yn well? Beth sy'n bygwth ein gweinidogaeth a'n cenhadaeth fel pobl Dduw? **Cytunodd y cynrychiolwyr y bydd yn werth meddwl am y pethau hyn** yn y flwyddyn gyfundebol 2016-17 a thrwy hynny efallai y gallwn weld sut y mae Duw yn ein galw ni ar gyfer y dyfodol. Y bwriad yw rhoi cyfle i bawb yn holl gapeli Synod Cymru feddwl am y cwestiynau hyn a rhoi ein hymateb.

**Siaradwr gwadd: Y Parchedig Gareth Powell, Ysgrifennydd y Gynhadledd**



Tybed, meddai siaradwr gwadd y Synod, a fydd pobl yn tueddu i feddwl mai 'nhw'/'rhywun arall' yw 'y Cyfundeb'? Mewn gwirionedd, mae cysylltiadau – a dyna yw ystyr Cyfundeb – yn hollbwysig i bawb. Mae cysylltiadau yn ein helpu i geisio dealltwriaeth o Dduw yn ei drugaredd, ei gariad a'i ras. Y cwestiwn yw, ydym ni o ddifrif ynghylch perthyn a bod yn rhan o Gyfundeb. Soniodd Gareth am sawl agwedd ar hyn: yn un peth, rhan bwysig o ddealltwriaeth yr Eglwys Fethodistaidd o waith ei gweinidogion yw mai gweinidogaeth deithiol sydd gennym. Bydd y gweinidogion yn mynd i ble bynnag y mae'r Eglwys eisiau iddynt fynd yn hytrach na pherthyn i un lle yn unig. Gan siarad yn blaen ar adegau, dywedodd Gareth (Cymro di-Gymraeg) nad yw'r Cymry bob amser mor groesawus ag y gallem fod. Pan ddaeth cyfle am gwestiynau, holwyd ef a yw'n credu y gallwn ddenu rhai o'r gweinidogion sydd yn y gwaith Saesneg ar hyn o bryd, ambell un yn medru Cymraeg, i Synod Cymru. Atebodd ei bod yn bwysig iawn peidio ag ystyried ffiniau cenedlaethol yn rhwystr.

Rhoddodd y siaradwr gryn sylw hefyd i bwysigrwydd gwneud iawn ddefnydd o'n hadnoddau a'n harian (sylweddol!). Rhaid cymryd risg, plannu hadau ac aros yn amyneddgar iddynt egino. Rhaid dangos dychymyg a hyder. Nid deddf y Mediaid a'r Persiaid mo Rheolau Sefydlog yr Eglwys ond mynegiant o'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn defnyddio adnoddau'n ddoeth, a hynny lle bynnag y mae'r angen dwysaf. Ond onid oes angen cynilo at ddiwrnod glawog? Fel y dywedodd rhywun, fues i allan funud yn ôl ac roedd hi'n bwrw'n o arw rŵan!! Diolchwyd yn fawr i Ysgrifennydd y Gynhadledd am ddod atom.

Diolchwn yn gynnes am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r Gwyliedydd.

| | |
|---|---|
| Er cof am Owain Owain gan Eira a'r teulu | £50-00 |
| Mr a Mrs G E Roberts, 9 Lôn y Mes, Abergele | £25-00 |
| Prifysgol Bangor | £04-00 |
| Er cof am ein rhieni y Parch a Mrs G R Jones, Rhosllanerchrugog gan Mr R Tegid Jones, 4 Allt Tŷ Gwyn, Rhos | £20-00 |
| Mr Eifion Lloyd Jones, Prion | £50-00 |
| Mrs G R Ellis, Bebington | £10-00 |
| Mrs A M Edwards, Llanfair-talhaiarn | £20-00 |
| Er cof am fy rhieni y Parch a Mrs D R Evans, gan Mrs Marian Jones | £30-00 |
| Er cof am fy mhriod, y Parch Ronald Griffith gan Mrs Margaret Griffith, y Drenewydd | £20-00 |
| Dienw | £50-00 |
| Er cof am y Parch a Mrs O Prys Davies | £50-00 |
| Dienw | £100-00 |
| Casgliad Bwrdd Cinio Dathlu 200 Rhifyn | £53-00 |
| Gwerthiant nwyddau i gofio'r Dathlu | £135.00 |
| Ann Owen, Cyffordd Llandudno | £40-00 |
| Dienw | £10-00 |
| Iola M Evans, Croesoswallt | £10-00 |
| Mr Trygarn Roberts | £25-00 |
| Mr R O Hughes | £5-00 |

Cyfanswm Tanysgrifiadau a Rhoddion Mawrth/Ebrill 2016: £707-00
Cyfanswm Derbyniadau o 1 Medi 2015 i 3 Mai 2016: £1365 sydd yn cynnwys rhodd garedig o £400 gan Bwyllgor Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Diolch yn fawr.



# Y PENTECOST AC EWROP

gan y Parchedig Martin Evans-Jones

**Genesis 11:1-9; Actau 2:1-13.**
Yr hyn sy'n wyrthiol am ddydd y Pentecost yn Jerwsalem, lle mae torf fawr, o amrywiol ieithoedd, wedi ymgynnull – "pob cenedl dan y nef" – i wrando ar sŵn dychrynllyd yr Ysbryd Glân yn cydio yn y disgyblion, yw fod pobl yn gallu cyfathrebu â'i gilydd o gwbl. "A sut yr ydym ni yn eu clywed bob un ohonom yn ei iaith ei hun, iaith ei fam?" Does dim pwynt ceisio dyfalu sut y digwyddodd o. Yn sicr nid rhywbeth yn debyg i'r Cenhedloedd Unedig lle caiff y cynrychiolwyr wisgo ffon clust i gael cyfieithiad ebrwydd yn eu hiaith eu hunain! Mae Luc, awdur yr Actau, yn gadael y peth yn niwlog. Yr oedd y wyrth o gyfathrebu ynddi ei hun yn rhodd yr Ysbryd Glân.

Trwy rym yr Ysbryd Glân cafodd pob person ei gyffwrdd mewn ffordd sylfaenol. Mae'r Ysbryd yn delio ag achosion ac anghenion mor ddwfn fel bod pob person yn gallu deall, waeth pa iaith a siaredir.

Yn hanes Tŵr Babel yn llyfr Genesis "un iaith ac un ymadrodd oedd i'r holl fyd". Ond pan aeth y bobl ati i godi tŵr uchel, y 'skyscraper' cyntaf, er mwyn gwneud enw iddynt eu hunain (fel Donald Trump), penderfynodd yr Arglwydd eu gwasgaru hyd wyneb y ddaear a'u cymysgu yn wahanol ieithoedd er mwyn dysgu gwers iddynt. Nid yw pobl yn hapus yn cael eu gwasgaru a'u cymysgu i wahanol ieithoedd. Maent eisiau (fel Nigel Farage) aros yn eu hunfan cyfarwydd a chysurus (rhywle tebyg i Loegr yn y dyddiau gynt).

Ond nid dyna oedd bwriad Duw yn y cread. Mae Ef am i bobl yr holl fyd rannu gyda'i gilydd a bod yn un. "Mewn undeb y mae nerth", meddir. Ond nid ar farchnad rydd y mae undeb o'r fath yn seiliedig ond yn hytrach ar ein ffyddlondeb i Dduw sydd yn Dad i bawb, boed yn Fwslim, neu Iddew, neu Fwdhydd neu Gristion. Nid creu pawb yr un fath ond ymlawenychu yn amrywiaeth rhyfeddol y greadigaeth. Nid oes gofyn rhoi heibio hunaniaeth genedlaethol ond rhaid bod ag ymrwymiad i Dduw sydd yn clymu pawb at ei gilydd er y gwahaniaethau i gyd.

Dyma reswm da dros bleidleisio dros aros o fewn Ewrop yn y refferendwm. Wrth gwrs mae angen diwygio'r berthynas rhwng y gwledydd. Ond llwyddodd Ewrop, drwy undeb rhwng y gwledydd, i gadw'r heddwch ar ôl 1945 hyd heddiw. Nid rŵan yw'r amser i wahanu.

Oherwydd drygioni Hitler bûm yn llawn rhagfarn yn erbyn Almaenwyr yn ystod fy arddegau. Ond pan euthum ar fy meic i ardal Evesham i gasglu ffrwythau mewn gwersyll o'r enw Concordia deuthum yn gyfaill i fachgen o'r Almaen oedd yn cydweithio â mi, a diflannodd fy atgasedd mewn wythnos.

Gwyrth y Pentecost oedd rhoi'r gallu newydd i wrando. Pan fydd yr Ysbryd Glân yn chwythu trwom rhoir i ni "glustiau i wrando a thafodau i lefaru". Fe grëwyd cymuned newydd o gariad ac undeb lle nad oedd y gwahaniaethau rhwng pobl yn fygythiad, yn wahanol i ofnau UKIP. Ac nid undeb lledrith oedd hwnnw, ond yr undeb y mae Duw yn ei ewyllysio o'r cychwyn, undeb mewn amrywiaeth a gwahanrwydd lle gall Ewrop fod yn esiampl i'r byd.

# WYTHNOS FFOADURIAID



Eleni mae'r **wythnos rhwng 20 a 26 Mehefin** wedi'i phennu yn Wythnos Ffoaduriaid (gweler www.refugeeweek.org.uk).

Yn nau fis cyntaf 2016 yn unig, collodd dros 400 o bobl a phlant eu bywydau yn ceisio croesi Môr y Canoldir, wrth iddynt ffoi rhag rhyfel a gormes. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn amcangyfrif bod dros chwarter miliwn o bobl wedi cael eu lladd yn y gwrthdaro yn Syria.

Gadewch inni weddïo dros bawb sy'n tosturio wrth y bobl hyn, ein brodyr a'n chwiorydd, a chefnogi pob ymdrech i helpu.

**Hollalluog a thrugarog Dduw**
**y bu dy Fab yn ffoadur heb unman i'w alw'n gartref iddo,**
**nertha'r rhai sydd heddiw'n ffoi rhag peryglon ac sydd yn ddigartref a newynog.**
**Bendithia waith y rhai sy'n ceisio eu hymgeleddu a gwna ninnau'n hael a thrugarog.**
**Arwain genhedloedd y byd fel y gallwn oll yn y pen draw lawenhau pan orseddir cyfiawnder a thangnefedd. Deled dy Deyrnas.**
**Drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.**

Ar **12 Mehefin** y mae Sul arbennig MHA eleni a'r thema y tro hwn yw "Creu Cymunedau Gofalgar". Mae trefn gwasanaeth Cymraeg ac adnoddau i'w cael ar gyfer y Sul ar www.mha.org.uk. Dewiswyd y thema am ei bod yn atseinio'r hyn yr ydym yn dod i'w weld yn gynyddol fel un o fwriadau craidd popeth y mae'r MHA yn rhan ohono, boed o fewn gwaith preswyl, gweithgareddau'r Cynllun Byw Gartref neu mewn dymuniad cynyddol i ymuno ag eraill i ymgyrchu am gymdeithas decach ar gyfer pobl hŷn.



Cynhelir Ffair Haf Cartref Coed Craig ar **18 Mehefin** eleni, yn yr Eglwys Fethodistaidd Saesneg, Llandrillo yn Rhos, 2-4pm. Pris mynediad £1 a bydd paned ar gael am 50c. Bydd amrywiol stondinau a bydd Band Beulah yno i'ch diddori.

# Tudalen y Plant

## Iesu a'r Pysgotwyr

Un diwrnod roedd Iesu'n sefyll ar lan Llyn Galilea, ac roedd tyrfa o bobl o'i gwmpas yn gwthio ymlaen i wrando ar neges Duw. Gwelodd fod dau gwch wedi eu gadael ar y lan tra roedd y pysgotwyr wrthi'n golchi eu rhwydi. Aeth i mewn i un o'r cychod, a gofyn i Simon, y perchennog, ei wthio allan ychydig oddi wrth y lan. Yna eisteddodd a dechrau dysgu'r bobl o'r cwch.
Pan oedd wedi gorffen siarad dwedodd wrth Simon, "Dos â'r cwch allan lle mae'r dŵr yn ddwfn, a gollwng y rhwydi i ti gael dalfa o bysgod."
"Meistr," meddai Simon wrtho, "buon ni'n gweithio'n galed drwy'r nos neithiwr heb ddal dim byd! Ond am mai ti sy'n gofyn, gollynga i y rhwydi."
Dyna wnaethon nhw a dyma nhw'n dal cymaint o bysgod nes i'r rhwydi ddechrau rhwygo. Dyma nhw'n galw ar eu partneriaid yn y cwch arall i ddod i'w helpu. Pan ddaeth y rheiny, cafodd y ddau gwch eu llenwi â chymaint o bysgod nes eu bod bron â suddo!
Pan welodd Simon Pedr beth oedd wedi digwydd, syrthiodd ar ei liniau o flaen Iesu a dweud, "Dos i ffwrdd oddi wrtho i, Arglwydd; dw i'n ormod o bechadur!"
Roedd Simon a'i gydweithwyr wedi dychryn wrth weld faint o bysgod gafodd eu dal; ac felly hefyd partneriaid Simon — Iago ac Ioan, meibion Sebedeus. Dyma Iesu'n dweud wrth Simon, "Paid bod ofn; o hyn ymlaen byddi di'n dal pobl yn lle pysgod."
Felly ar ôl llusgo eu cychod i'r lan, dyma nhw'n gadael popeth i fynd ar ei ôl.

(Luc 5:1-11, beibl.net)





Beth am liwio'r llun.

Mae pob sgwâr, a phob rhes, i fod i gynnwys un o bob un o'r pedwar llun. Fedri di roi'r rhai sydd ar goll i mewn?

